



FARMING
connect
cyswllt
FFERMIO

Cyfnewidfa Rheolaeth Cyswllt Ffermio

Enw: Lottie Wilson

Cyrchfan: DU

Pwnc: Cloffni mewn Gwartheg Llaeth

Dyddiad: Mehefin/Gorffennaf/Awst 2022

1 Cefndir

Rydw i'n fyfyrwraig amaeth ar hyn o bryd yn astudio gradd ym Mhrifysgol Nottingham, ar ôl cwblhau diploma mewn amaeth yng Ngholeg Hartpury. Ar y fferm gartref, rydym ni'n godro tua 320 o wartheg Holstein Friesian mewn system led-ddwys sy'n lloia drwy'r flwyddyn. Er nad yw cloffni ynddo'i hun yn arwain at gostau rhy sylweddol i ni yn ein busnes, mae'n rhywbeth y gellir gweithio i'w wella bob amser, a bydd hynny yn ei dro yn cynyddu ffrwythlondeb, cynhyrchiant llaeth a hirhoedledd, gan hefyd leihau'r defnydd o wrthfotigau a chostau cynhyrchu.

Nod fy nhaith gyfnewid oedd i ddatblygu gwell dealltwriaeth o gloffni mewn gwartheg llaeth a pham ei fod yn broblem mor fawr ar ffermydd er y goblygiadau costau sylweddol i'r busnes. Fel sy'n digwydd yn aml, mae gwaith ymchwil yn cael ei wneud i ganfod datrysiadau i rai o'r problemau mwyaf megis canfod cloffni, rhwyddineb rheoli a thechnegau trimio traed. Fodd bynnag, nid yw hyn yn aml yn mynd law yn llaw â datrysiadau ymarferol y gallwn eu defnyddio ar y fferm. Fy nod oedd gweld rhywfaint o'r gwaith ymchwil ar waith ac i ofyn cwestiynau ynglyn â pha newidiadau y gallwn i eu gwneud ar y fferm i greu datrysiadau ac i fod o fudd i'r busnes.

2 Amserlen

2.1 Taith 1: Prifysgol Lerpwl – yn dilyn George Oikonomou a'i dîm

Diwrnod 1:

Fe wnes i gwrdd â Beth Griffiths yn y lle cyntaf, sy'n fyfyrwraig Doethuriaeth yn astudio clwyfau ar y traed; yr hyn sy'n eu hachosi a sut i'w hatal. Yn ystod ei gwaith ymchwil, mae hi wedi astudio 2353 o wartheg. Mae hi wedi genotypeio pob un ohonynt ac yna wedi codi 4 troed bob un yn ystod y 4 cam trwy gydol eu cyfnod llaetha, ac yna cafodd serwm a samplau eu cymryd a'u profi i ganfod marcwyr ar gyfer clwyfau posibl ar y traed. Nod astudio'r pedwar cyfnod yn ystod y cyfnod llaetha oedd profi damcaniaeth 'effaith lloia', lle mae'r braster ar waelod y droed yn cilio oherwydd cynnydd mewn hormonau. Yn ei dro, mae hyn yn gwneud y fuwch yn fwy tebygol o ddiodef clwyfau ar wadn y droed a necrosis. Er mwyn gwrthbwysu'r gwendid hwn, mae cysur y fuwch a gofal traed yn hanfodol. Mae angen sicrhau bod digon o wellt a lle ar gael a chyfyngu ar ymddygiad bwlio a'r perygl o lithro. Ceir hefyd risg sylweddol ymysg heffrod cyflo, o ganlyniad i wendid yn ar wadn y droed. Gallai lleoliad asgwrn y droed gael ei altro'n barhaol gan achosi niwed



parhaol i'r heffer. Felly, bydd sicrhau bod gwartheg sych a heffrod cyflo yn cael y siediau gorau a chymaint o le â phosibl yn talu ar ei ganfed.

Yna teithiais i fferm leol lle'r oedd myfyrwyr milfeddygaeth yn cynnal profion mewn siediau ac yn sgorio symudedd gwartheg. Roedd y fferm wedi gwella ei chyfraddau cloffni'n sylweddol dros y blynyddoedd diwethaf, a hynny'n rhannol o ganlyniad i brosiect 'Cattle eye' y brifysgol. Mae'r prosiect hwn yn defnyddio Deallusrwydd Artiffisial i ganfod cloffni mewn gwartheg yn ddigon cynnar i allu cywiro'r broblem ac atal niwed pellach. Yn ogystal â hynny, roedden nhw wedi gosod baddon traed awtomatig a oedd hefyd wedi effeithio'n gadarnhaol ar gloffni, ac sydd wedi bod yn arbennig o effeithiol wrth leihau nifer yr achosion o ddermatitis digidol. Yn ystod amser godro, roedd myfyriwr Doethuriaeth arall, Alkis Anagnostopoulos yn sgorio traed ôl y gwartheg ar gyfer dermatitis digidol. Er mwyn gwneud hyn, roedd yn defnyddio sbatwla gyda drych bach wedi'i ludo arno i'w alluogi i weld yn glir o dan sawdl y fuwch. Roedd hyn yn rhan o'i arbrawf yn edrych ar y ffordd orau o reoli dermatitis digidol a sut mae'n ymddangos mewn cyfnodau gwahanol.

Ail ddiwrnod:

Bûm yn cysgodi Alkis ar fferm arall lle'r oedd yn gweithio ar brosiect yn ymwneud â dermatitis digidol. Yn ystod y dydd, buom yn codi traed ôl heffrod i sgorio a thrin y dermatitis digidol. Er gwaethaf presenoldeb sylweddol dermatitis digidol ar nifer o ffermydd a'r costau sylweddol i'r busnesau, ychydig iawn sy'n hysbys am y clefyd. Er enghraifft, pam mae'r clefyd i'w weld yn bennaf ar y traed ôl? A yw'r haint yn dechrau ar y tu mewn neu ar y tu allan? Ac efallai'n bwysicaf oll, beth yw'r ffordd orau o'i drin? Mae'r rhain oll yn gwestiynau y mae Alkis yn astudio fel rhan o'r prosiect hwn, ac er nad oes unrhyw atebion pendant hyd yma, roedd hi'n gyfle gwych i drafod y posibiladau ac i glywed am yr atebion a allai fod yn dod i'r amlwg dros y blynyddoedd nesaf.

2.2 Ail daith: Sara Pederson

Diwrnod 1 a 2

Treuliais ddau ddiwrnod yn gweithio gyda Sara ar ei gwaith ymchwil Doethuriaeth yn edrych ar dechnegau trimio traed heffrod. Cafodd symudedd heffrod ei sgorio ac yna cafodd eu traed eu trimio gan ddefnyddio naill ai'r model llydan neu'r dull Iseldirol. Bydd yr heffrod wedyn yn cael eu dilyn er mwyn arsylwi unrhyw wahaniaethau drwy gydol eu bywydau. Gan nad oedd oedd wedi gweld y model llydan yn cael ei ddefnyddio yn flaenorol, roedd gen i ddiddordeb clywed y buddion ac i'w weld yn cael ei ddefnyddio, ac rwy'n edrych ymlaen at weld y canlyniadau. Gyda'r canlyniadau hyn, gallaf gyflwyno newid ar fy fferm fy hun, gan newid y model trimio traed ac edrych yn fanylach ar heffrod os gwelir buddion fel y rhagwelir.

Diwrnod 3

Treuliais y diwrnod gyda grŵp trafod dan arweiniad ffermwyr a sefydlwyd gan Sara. Bwriad y grŵp yw i'r ffermwyr ymweld â ffermydd ei gilydd a thrafod eu hystadegau a'u problemau cloffni eu hunain, ac i rannu cyngor gyda'i gilydd. Er bod milfeddyg yn bresennol, mae Sara yn mynychu i ofyn ambell i gwestiwn ac i gynnig rhywfaint o fewnbwn. Cefais syndod i weld pa mor dda yr oedd y grŵp yn gweithio a pha mor agored a pharod yr oedden nhw i helpu ei gilydd. Fe wnaeth y diwrnod wneud i mi sylweddoli cymaint y gallwn ni fel ffermwyr helpu ein gilydd pan ddaw'r cyfle.

3 Camau nesaf

Yn dilyn fy nhaith gyfnewid, rydw i wedi dechrau cynllunio newidiadau ar gyfer y dyfodol ar y fferm gan gynnwys dipio traed gwartheg sych yn rheolaidd a mynd ati'n rhagweithiol i chwilio am ddermatitis digidol a'i drin cyn gynted â phosibl. Yn ogystal, ar ôl gweld cymaint o effaith y mae technegau trimio traed yn gallu eu cael, rydw i'n mynd i wneud cyrsiau trimio traed a sgorio symudedd ar ddiwedd y mis, gyda'r bwriad o fynd ymlaen i wneud cyrsiau pellach ar drimio traed yn y dyfodol agos.

- Gwybodaeth
- Hyfforddiant
- Buddsoddiad
- Amser
- Gwelliant

4 Prif negeseuon i'r diwydiant

1. **Cofnodi a mesur lefelau cloffni o fewn y fuches a'r hyn sy'n ei achosi.** Mae bod yn ymwybodol o ystadegau'r fuches yn eich galluogi i adnabod meysydd targed i'w gwella'n gynt, a gellir gweld y canlyniadau a'u mesur, gyda'r gobaith y bydd yn profi bod amser ac arian yn cael eu defnyddio yn y ffyrdd cywir.
2. **Defnyddio'r holl adnoddau a'r personel sydd ar gael.** Gall staff y fferm, pobl sy'n trimio traed, milfeddyfon, ymgynghorwyr a ffermwyr eraill helpu i gynnig atebion i broblemau'n ymwneud â chloffni, a bydd defnyddio'r tîm cyfan yn sicrhau'r canlyniadau gorau i'r gwartheg ac i'r busnes.
3. **Talu sylw i'r 'Effaith Loia'.** Gan fod gwartheg sych a heffrod cyflo naill ai'n cael eu troi allan neu'n cael eu cadw mewn sied oddi wrth yr ardal odro, mae dipio traed a sgorio cloffni yn aml yn cael ei anwybyddu yn ystod y cyfnod sych.
4. **Os byddwch yn godro mewn parlwr, gwnewch ddefnydd ohono.** Dylai sefyll o fewn 6 modfedd i draed ôl y gwartheg ddwywaith y dydd eich galluogi i adnabod nifer o broblemau, yn enwedig dermatitis digidol. Defnyddiwch hyn at eich mantais a chymerwch amser i edrych a thrin yn unol â hynny.
5. **Gwerthfawrogi pwysigrwydd iechyd y traed a buddsoddi'n unol â hynny.** Gall cloffni gostio miloedd o bunnoedd i'r busnes yn sydyn iawn. Canfyddwch y meysydd sy'n achosi problemau a buddsoddwch yn gynnar.

